# Darren Millar AC

**Parc Busnes Gogledd Cymru**
**Abergele**
**LL22 8LG**

E-bost: Darren.Millar@cymru.gov.uk
Ffôn: 01745 839117


11 Rhagfyr 2013

Annwyl Gyfaill

**Bil Meysydd Carafannau Gwyliau (Cymru)**

Yn dilyn balot a gynhaliwyd gan y Llywydd, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cytuno y câf gyflwyno cynigion ar gyfer cyfraith newydd yng Nghymru, yr wyf yn awr yn cynnig y caiff ei galw yn 'Bil Meysydd Carafannau Gwyliau (Cymru)'.

Yn gynharach eleni, cynhaliais ymgynghoriad cyhoeddus eang ac ymarfer ymgysylltu i fy nghynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu fy nghynigion ac ymrwymais i ganiatáu gwaith ymgynghori pellach ar ôl i'r Bil drafft gael ei baratoi. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau ac mae'n bleser gennyf gynnwys copi o'r Bil drafft er gwybodaeth.

Mae'r Bil drafft yn cymryd Deddf Tai Symudol (Cymru) 2013 fel man cychwyn ac yn ei chymhwyso gydag addasiadau penodol i feysydd carafannau gwyliau. Fe'm hysbysir mai dyma'r ffordd orau o sicrhau bod y ddeddfwriaeth mor gryno â phosibl, yn gyson â chyfreithiau eraill Cymru. Er bod gwahaniaethau clir rhwng y sector cartrefi mewn parciau a'r diwydiant carafannau gwyliau, mae hefyd faterion sy'n gyffredin iddynt sy'n golygu bod fy null i o weithio yn addas yn y cyd-destun hwn.

Mae'r Bil drafft wedi ei lunio i fynd i'r afael â phryderon ynghylch rheoli a rheoleiddio meysydd carafannau gwyliau yng Nghymru, gan gynnwys:

- pwerau sydd gan awdurdodau lleol i fynd i'r afael â phobl sy'n byw mewn carafannau yn anghyfreithlon;
- yr adnoddau sydd ar gael i orfodi amodau gweithredu sydd ynghlwm wrth drwyddedau meysydd carafannau gwyliau;
- priodoldeb pobl sy'n berchen ar feysydd carafannau gwyliau;
- camdriniaeth rhai perchnogion meysydd carafannau gwyliau o berchnogion carafannau gwyliau ar eu safleoedd; a
- cost darparu gwasanaethau cyhoeddus i'r rhai sy'n defnyddio carafannau gwyliau fel eu prif gartref.


Gan ddibynnu ar ganlyniad y gwaith ymgynghori pellach hwn, mae'n bosibl y bydd y Bil yn destun newidiadau drafftio a thechnegol pellach cyn imi ei gyflwyno'n ffurfiol yn y Cynulliad Cenedlaethol. Ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno'n ffurfiol, byddaf hefyd yn cyhoeddi Memorandwm Esboniadol manwl ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol cadarn i gefnogi'r broses graffu fanwl sy'n ofynnol cyn dod i benderfyniad terfynol ynghylch a ddylai dod yn gyfraith.

Rwy'n ceisio yn arbennig farn cyrff sy'n cynrychioli'r diwydiant carafannau gwyliau, eu cwsmeriaid a'r rhai y bydd angen iddynt weithredu fy nghynigion, yn bennaf o fewn llywodraeth leol. Mae'r Bil drafft wedi cael ei gyhoeddi ar wefan y Cynulliad hefyd i ganiatáu i gymaint o bobl â phosibl gyflwyno eu sylwadau.

Rhaid i'r Bil gael ei gyflwyno erbyn canol mis Mawrth 2014 ac er mwyn cyflawni hyn, dyddiad cau'r ymgynghoriad hwn yw dydd Gwener, 17 Ionawr 2014.

Edrychaf ymlaen at gael eich sylwadau.

Yn gywir



**Darren Millar**

**Yr Aelod Cynulliad dros Orllewin Clwyd**

**Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)**

Deddf i wneud darpariaeth ynghylch safleoedd carafannau gwyliau yng Nghymru.

**Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:—**

*Rhagymadrodd*

**1 Diben**

Diben y Ddeddf hon yw gwneud darpariaeth ynghylch trwyddedu a rheoleiddio safleoedd carafannau gwyliau yng Nghymru.

**2 Trosolwg**

(1) Mae’r Ddeddf hon yn cymhwyso Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 at safleoedd carafannau gwyliau, gydag addasiadau penodedig.

(2) Mae’r Tabl yn dangos darpariaethau yn Neddf 2013 a addasir gan y Ddeddf hon o ran sut y maent yn gymwys i safleoedd carafannau gwyliau.

| *Y ddarpariaeth yn Neddf 2013* | *Y pwnc* | *Natur gyffredinol yr addasiad* | *Y ddarpariaeth yn y Ddeddf hon* |
|---|---|---|---|
| Adran 8 | Parhad trwydded safle | Trwydded i barhau am gyfnod amhenodol | Adran 7 |
| Adran 9 | Amodau trwyddedau | Ymgynghori ar reoli risg llifogydd | Adran 8(1) |
| Adran 9 | Amodau trwyddedau | Awdurdod lleol i fonitro cydymffurfio ag amodau’r drwydded yn flynyddol | Adran 8(2) |
| Adran 9 | Amodau trwyddedau | Adolygu amodau’r drwydded bob 5 mlynedd | Adran 8(3) |
| Adran 9 | Amodau trwyddedau | Gwahardd defnyddio carafán wyliau fel unig breswylfa neu brif breswylfa, a pherchnogion safle i gynnal prawf preswylio | Adran 9 |
| Adran 15 | Torri amod | Dyletswydd ar awdurdod lleol i roi hysbysiad cydymffurfio os bydd meddiannydd yn methu prawf preswylio, a hawl meddiannydd i apelio | Adrannau 10(1) i 10(4) |
| Adran 16 | Torri amod | Cynnydd yn uchafswm yr hysbysiad cosb benodedig am dorri un o amodau’r drwydded | Adran 10(5) |
| Adran 16 | Torri amod | Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau ar ddefnyddio hysbysiadau cosb benodedig | Adran 10(6) |

| *Y ddarpariaeth yn Neddf 2013* | *Y pwnc* | *Natur gyffredinol yr addasiad* | *Y ddarpariaeth yn y Ddeddf hon* |
|---|---|---|---|
| Adran 28 | Gofyniad bod rhaid i reolwr safle fod yn berson addas a phriodol | Cynnwys unrhyw berson sy'n gyfrifol am roi cyfarwyddiadau i'r rheolwr | Adran 11(1) |
| Adran 29 | Penderfynu a yw person yn addas a phriodol | Tystiolaeth o dorri safonau masnachu i gael ei hystyried | Adran 11(2) |
| Adran 30 | Rheolwr interim | Dim hawl i gymdeithas meddianwyr i fynnu bod penodiad rheolwr interim yn cael ei ystyried | Adran 12 |
| Adran 41 | Amddiffyn rhag troi allan | Dileu parhad lleiaf hysbysiad | Adran 13 |
| Adran 42(3) | Amddiffyn rhag troi allan | Dileu amddiffyniadau penodol rhag troi allan | Adran 14 |
| Adran 48 | Cytundebau carafannau gwyliau | Egluro bod Rhan 4 o Ddeddf 2013 yn gymwys i gytundebau carafannau gwyliau | Adran 15 |
| Adran 50 ac Atodlen 2 | Telerau cytundebau carafannau gwyliau | Ymgorffori telerau ymhlyg newydd, a phŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio telerau | Adran 16 |
| Adran 53 | Olynwyr mewn teitl | Gofyniad ynglŷn â chydsyniad perchennog | Adran 17 |
| Adran 61 | Cymdeithas trigolion | Dileu diffiniad "cymdeithas trigolion gymwys" | Adran 18 |
| Amrywiol | Apelio i dribiwnlys eiddo preswyl | Apelio yn hytrach i lys ynadon | Adran 19 |

*Dehongli ymadroddion allweddol*

**3 Ystyr "carafán"**

(1) Yn y Ddeddf hon mae i "carafán" yr un ystyr â "cartref symudol" o dan adran 60 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

(2) Caiff gorchymyn o dan adran 60(4) o'r Ddeddf honno gynnwys cymhwyso'r adran honno at ddibenion y Ddeddf hon, hepgor hynny, neu wneud darpariaeth wahanol mewn perthynas â hynny.

**4 Ystyr "safle carafannau gwyliau"**

(1) Yn y Ddeddf hon ystyr "safle carafannau gwyliau" yw tir yng Nghymru y gosodwyd un neu ragor o garafannau arno er mwyn i bobl fyw ynddynt—

(a) lle y mynegwyd bod y caniatâd cynllunio perthnasol wedi ei roi at ddibenion gwyliau yn unig, neu

(b) lle y bwriedir neu y cynigir y tir i'w ddefnyddio ar gyfer llety gwyliau.

(2) Mae tir yng Nghymru a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r tir hwnnw y mae is-adran (1) yn gymwys iddo wedi ei gynnwys yn y diffiniad o "safle carafannau gwyliau".

(3) Yn benodol, nid yw'r ffaith bod rhan o safle wedi ei chadw, neu y caniateir ei chadw, i'w meddiannu'n barhaol gan berchennog neu reolwr y safle yn atal y safle cyfan rhag bod yn safle carafannau gwyliau at ddibenion y Ddeddf hon.

(4) Mae Atodlen 1 i Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (safleoedd nad ydynt yn safleoedd rheoleiddiedig) yn gymwys at ddibenion y Ddeddf hon fel y mae'n gymwys at ddibenion y Ddeddf honno.

(5) Nid yw gorchymyn o dan yr Atodlen honno'n gymwys mewn perthynas â'r Ddeddf hon ond os yw'n darparu'n unswydd i'r perwyl hwnnw; a chaiff gorchymyn—

(a) darparu ei fod yn gymwys mewn perthynas â'r Ddeddf hon yn unig;

(b) cynnwys darpariaeth benodol o ran ei gymhwyso mewn perthynas â'r Ddeddf hon.

(6) Nid yw tystysgrif esemptiad o dan baragraff 13 o'r Atodlen honno (sefydliadau sy'n hybu neu hyrwyddo gweithgareddau hamdden) yn gymwys mewn perthynas â'r Ddeddf hon ond os yw'n darparu'n unswydd i'r perwyl hwnnw; a chaiff tystysgrif—

(a) darparu ei bod yn gymwys mewn perthynas â'r Ddeddf hon yn unig;

(b) cynnwys darpariaeth benodol o ran ei chymhwyso mewn perthynas â'r Ddeddf hon.

*Cymhwyso Deddf 2013*

**5 Cymhwyso Deddf 2013 at safleoedd carafannau gwyliau**

(1) Mae Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn gymwys i safleoedd carafannau gwyliau.

(2) O ran ei chymhwyso at safleoedd carafannau gwyliau, mae Deddf 2013 wedi ei haddasu fel y pennir yn y Ddeddf hon.

**6 Addasiadau cyffredinol**

Yn ychwanegol at yr addasiadau penodol a nodir yn nes ymlaen yn y Ddeddf hon, o ran cymhwyso Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn rhinwedd adran 5 uchod—

(a) mae cyfeiriadau at safleoedd cartrefi symudol i'w trin fel cyfeiriadau at safleoedd carafannau gwyliau;

(b) mae cyfeiriadau at safleoedd rheoleiddiedig i'w trin fel cyfeiriadau at safleoedd carafannau gwyliau;

(c) mae cyfeiriadau at ddefnyddio tir fel safle cartrefi symudol i'w trin fel cyfeiriadau at ddefnyddio tir fel safle carafannau gwyliau;

(d) mae cyfeiriadau at gartrefi symudol i'w trin fel cyfeiriadau at garafannau; ac

(e) mae cyfeiriad at feddiannu fel unig breswylfa neu brif breswylfa i'w drin fel cyfeiriad at feddiannu fel llety gwyliau (yn ddarostyngedig i adrannau 9 a 10 isod).

*Parhad trwyddedau safle*

**7 Parhad trwyddedau safle**

Mae trwydded safle yn parhau mewn grym nes ei therfynu.

*Amodau trwyddedau safle*

**8 Amodau: cyffredinol**

(1) Wrth ystyried pa amodau i'w cynnwys mewn trwydded safle carafannau gwyliau rhaid i awdurdod lleol ymgynghori ag unrhyw awdurdod cyhoeddus yng Nghymru sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros reoli risg llifogydd; a chyn amrywio amod (o dan adran 13 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013) a osodwyd er mwyn rheoli risg llifogydd, rhaid i awdurdod lleol ymgynghori ag unrhyw awdurdod cyhoeddus o'r fath.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol sy'n dyroddi trwydded safle i safle carafannau gwyliau archwilio'r safle o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn galendr i fonitro cydymffurfio ag amodau'r drwydded safle; ond—

(a) nid yw'r ddyletswydd i gynnal archwiliadau o dan yr is-adran hon yn cychwyn tan amser a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau,

(b) cyn gwneud rheoliadau rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â sefydliadau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau yr effeithir yn sylweddol arnynt gan y rheoliadau ac unrhyw bersonau eraill y credant eu bod yn briodol, ac

(c) caiff y rheoliadau wneud darpariaeth wahanol ar gyfer ardaloedd neu ddibenion gwahanol.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol sy'n dyroddi trwydded i safle carafannau gwyliau adolygu amodau'r drwydded safle o leiaf bob 5 mlynedd, gan ddechrau â'r dyddiad y daw'r drwydded yn weithredol.

**9 Amodau: preswylio**

(1) Rhaid i drwydded safle ar gyfer safle carafannau gwyliau gynnwys amod na chaiff neb feddiannu carafán ar y safle fel ei unig breswylfa neu ei brif breswylfa.

(2) Rhaid i drwydded safle ar gyfer safle carafannau gwyliau gynnwys amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog gynnal profion i ddarganfod a yw'r meddianwyr yn cydymffurfio â'r amod sydd ymhlyg o dan is-adran (1) ("y prawf preswylio").

(3) Rhaid i berchennog—

(a) cadw tystiolaeth o sut mae meddianwyr wedi pasio'r prawf preswylio, a

(b) trefnu bod y dystiolaeth ar gael i'w harchwilio gan yr awdurdod lleol ar bob adeg resymol.

(4) Os bydd meddiannydd yn methu'r prawf preswylio, rhaid i'r perchennog hysbysu'r awdurdod lleol am y methiant cyn gynted ag y gellir.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cymhwyso'r prawf preswylio, gan gynnwys y meini prawf sydd i'w cymhwyso a'r dystiolaeth sydd i'w chadw o dan is-adran (3)(a).

(6) Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan is-adran (5) oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â sefydliadau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau yr effeithir yn sylweddol arnynt gan y rheoliadau ac unrhyw bersonau eraill y credant eu bod yn briodol.

(7) Mae adran 34 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (trosedd rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol) yn gymwys i ddarparu gwybodaeth at ddibenion y prawf preswylio.

(8) Mae adran 35 o Ddeddf 2013 (canllawiau gan Weinidogion Cymru) yn gymwys i'r prawf preswylio.

(9) At ddibenion yn adran hon, ystyr "meddiannydd" yw person sy'n meddiannu carafán wyliau ar yr un safle carafannau gwyliau am gyfnod o 28 diwrnod neu ragor mewn unrhyw gyfnod o dri mis o'r bron.

**10 Torri amod**

(1) Rhaid i awdurdod lleol roi hysbysiad cydymffurfio o dan adran 15 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 os yw'n ymddangos bod yr amod sy'n gwahardd meddiannu carafán wyliau fel unig breswylfa neu brif breswylfa person wedi ei dorri.

(2) Yr un pryd â rhoi hysbysiad cydymffurfio yn rhinwedd is-adran (1), rhaid i awdurdod lleol hysbysu'r meddiannydd yr arweiniodd ei dor-amod at yr hysbysid cydymffurfio am y canlynol—

(a) manylion yr hysbysiad cydymffurfio, a

(b) hawl y meddiannydd i apelio o dan is-adran (3).

(3) Caiff y meddiannydd apelio i lys ynadon yn erbyn yr hysbysiad cydymffurfio.

(4) Mae adran 23(1) o Ddeddf 2013 yn gymwys i apelau o dan yr adran hon (ac at y diben hwn yr hysbysiad cydymffurfio yw'r "ddogfen berthnasol").

(5) O ran ei chymhwyso at y Ddeddf hon, mae adran 16(2) o Ddeddf 2013 (torri amod: hysbysiad cosb benodedig) yn gymwys gan osod cyfeiriad at lefel 2 ar y raddfa safonol yn lle'r cyfeiriad at lefel 1.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) dyroddi canllawiau i'r awdurdodau lleol ynghylch pryd y mae tor-amod o ran safleoedd carafannau gwyliau i'w drin fel pe bai'n ddigon difrifol i gyfiawnhau dyroddi hysbysiad cosb benodedig (a rhaid i'r awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau);

(b) drwy reoliadau gyfyngu'r amgylchiadau y caniateir i hysbysiadau cosb benodedig gael eu dyroddi odanynt mewn perthynas â safleoedd carafannau gwyliau.

*Rheolwyr safle*

**11 Personau addas a phriodol**

(1) O ran ei chymhwyso at safleoedd carafannau gwyliau, mae'r cyfeiriad yn adran 28(1) o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (gofyniad bod rhaid i reolwr safle fod yn berson addas a phriodol) at berson a benodwyd gan y perchennog i reoli'r safle yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw berson (gan gynnwys y perchennog) sy'n gyfrifol am roi cyfarwyddiadau ynglŷn â rheoli'r safle.

(2) O ran ei chymhwyso at safleoedd carafannau gwyliau, mae adran 29(3) o Ddeddf 2013 (tystiolaeth y mae'n rhaid i awdurdod lleol roi sylw iddi wrth benderfynu a yw person yn addas a phriodol i reoli safle) yn cynnwys cyfeiriad at dorri unrhyw ddarpariaeth yn y gyfraith sy'n ymwneud â safonau masnachu.

**12 Rheolwr interim**

Nid yw adran 30(3) o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (hawl cymdeithas trigolion gymwys i fynnu bod penodiad rheolwr interim yn cael ei ystyried) yn gymwys i safleoedd carafannau gwyliau.

*Amddiffyn rhag troi allan*

**13 Parhad lleiaf hysbysiad**

Nid yw adran 41 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (parhad lleiaf hysbysiad) yn gymwys i safleoedd carafannau gwyliau.

**14 Cau meddiannydd allan**

Nid yw adran 42(3) o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (gwahardd gorfodi'r hawl i gau meddianwyr allan o safleoedd heblaw drwy achos llys) yn gymwys i safleoedd carafannau gwyliau.

*Cytundebau carafannau gwyliau*

**15 Cytundebau carafannau gwyliau**

(1) Wrth gymhwyso Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 at safleoedd carafannau gwyliau, mae adran 48 (cytundebau) yn effeithiol fel pe bai'n darllen fel a ganlyn—

"(1) Mae'r Rhan hon yn gymwys i unrhyw gytundeb y mae gan berson hawl odano—

(a) i osod neu i feddiannu carafán wyliau ar safle gwarchodedig, a

(b) i feddiannu'r garafán fel llety gwyliau.

(2) Yn y Rhan hon ystyr "meddiannydd", o ran carafán wyliau a safle gwarchodedig, yw'r person sydd â hawl fel y'i crybwyllir yn is-adran (1) o ran carafán wyliau a'r safle gwarchodedig (ond gweler hefyd adran 55(2)(b))."

**16 Telerau cytundebau**

(1) Wrth gymhwyso Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 at safleoedd carafannau gwyliau, mae’r adran hon yn effeithiol yn lle adran 50 ac Atodlen 2 (telerau cytundebau).

(2) Mae cytundeb y mae Rhan 1 o Ddeddf 2013 yn gymwys iddo yn rhinwedd y Ddeddf hon yn cynnwys drwy ymhlygiad delerau unrhyw Gytundeb Trwydded Enghreifftiol ar gyfer Carafannau Gwyliau a nodir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

(3) Cyn setlo ar Gytundeb Trwydded Enghreifftiol rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â chyrff y mae’n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau masnachol a phreifat perthnasol.

(4) Mae cytundeb y mae Rhan 1 o Ddeddf 2013 yn gymwys iddo yn rhinwedd y Ddeddf hon yn cynnwys drwy ymhlygiad deler sy’n ei gwneud yn ofynnol i berchennog y safle ymgynghori â meddianwyr carafannau gwyliau a osodwyd ar y safle ynghylch unrhyw fater—

(a) sy’n ymwneud â gweithredu neu reoli’r safle, neu â chynigion i newid neu i wella’r safle, a

(b) sy’n debygol o effeithio ar feddianwyr yn sylweddol (boed yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol).

(5) Rhaid i’r ymgynghori o dan is-adran (4)—

(a) caniatáu o leiaf 28 diwrnod clir ar gyfer ymatebion; a

(b) rhoi disgrifiad digonol o’r mater y mae’r ymgynghori’n ymwneud ag ef ac ym mha fodd y gallai effeithio ar feddianwyr.

(6) Mae adran 51(1) o Ddeddf 2013 (pŵer i ddiwygio telerau ymhlyg) yn gymwys i’r adran hon fel y mae’n gymwys i Atodlen 2 i’r Ddeddf honno.

(7) Mae gan y llys (o fewn ystyr adran 55(1) o Ddeddf 2013) awdurdodaeth i benderfynu ar unrhyw gwestiwn sy’n codi o dan delerau a ymhlygir mewn cytundeb yn rhinwedd yr adran hon; ac mae’r is-adran hon yn effeithiol yn lle adran 54(3) i (6) (awdurdodaeth tribiwnlys neu’r llys).

## 17 Olynwyr mewn teitl

(1) Nid yw adran 53(2) o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (effaith gyfrwymol cytundeb a aseiniwyd) yn gymwys ond i aseiniad gyda chydsyniad ysgrifenedig perchennog y safle ymlaen llaw.

(2) Pan fo person sydd â hawl i fanteisio ar gytundeb carafán wyliau ac sydd wedi ei rwymo ganddo yn marw, mae’r cytundeb yn effeithiol er lles y person sydd â hawl i’r garafán yn rhinwedd ewyllys y person ymadawedig neu o dan y gyfraith sy’n ymwneud â diffyg ewyllys ac yn rhwymo’r person hwnnw, ond yn ddarostyngedig i is-adran (3).

(3) Dim ond os bydd perchennog y safle yn rhoi cydsyniad ysgrifenedig y mae is-adran (2) yn gymwys.

(4) Caiff llys ynadon anghymhwyso’r gofyniad ynglŷn â chydsyniad os yw wedi ei fodloni bod y cydsyniad wedi ei gadw’n ôl yn afresymol.

*Atodol a chyffredinol*

**18 Cymdeithas trigolion**

Nid yw adran 61 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (ystyr "cymdeithas trigolion gymwys") yn gymwys i safleoedd carafannau gwyliau.

**19 Apelio**

(1) Rhaid i apêl neu gais y gellid eu gwneud i dribiwnlys eiddo preswyl o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, wrth gymhwyso'r Ddeddf honno at safleoedd carafannau gwyliau yn rhinwedd y Ddeddf hon, gael eu gwneud yn hytrach i lys ynadon (a chan hynny mae cyfeiriadau at y tribiwnlys i'w trin fel cyfeiriadau at lys ynadon).

(2) Mae cyfeiriadau yn Neddf 2013 at apelio i'r Tribiwnlys Uwch i'w trin, i'r graddau y mae angen hynny o ganlyniad i is-adran (1), fel cyfeiriadau at gais am y datganiad o achos o dan adran 111 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (ac mae cyfeiriadau at benderfyniadau ar apêl i'r Tribiwnlys Uwch i'w trin fel cyfeiriadau at benderfyniad llys ynadon ar gais o dan yr adran honno ac at benderfyniad yr Uchel Lys mewn unrhyw achos a ddatgenir yn unol â'r adran honno).

**20 Diwygiadau canlyniadol**

(1) Yn y deddfiadau a ganlyn mae cyfeiriad at Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn cynnwys cyfeiriad at y Ddeddf honno fel y'i cymhwysir (ac y'i haddasir) gan y Ddeddf hon—

(a) Deddf Ardrethu (Safleoedd Carafannau) 1976;

(b) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;

(c) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

(d) Deddf Tai 2004;

(e) Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008;

(f) Deddf Cydraddoldeb 2010.

(2) Yn adran 1 o Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 ar ôl is-adran (1A) mewnosoder—

"(1B) Subsection (1) does not apply in relation to a holiday caravan site within the meaning of the Holiday Caravan Sites (Wales) Act 2014."

(3) Yn adran 2 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (cartrefi symudol sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf)—

(a) yn lle is-adran (1)(b) rhodder—

"(b) safle carafannau gwyliau o fewn ystyr Deddf Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru) 2014.", a

(b) hepgorer is-adrannau (3) a (4).

## 21 Cychwyn

(1) Daw darpariaethau'r Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a benodir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

(2) Caiff gorchymyn o dan is-adran (1) benodi diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol.

## 22 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru) 2014.